

Beth wnai yr Iesu?

Beth wnai yr Iesu? Roedd hwn yn gwestiwn poblogaidd rai blynyddoedd yn ôl. Y mae Alan Kent, Offeiriad Cynorthwyol yn AWL Bro Teifi, wedi bod yn ystyried beth fyddai'r Iesu wedi gwneud am Covid-19, a'r effaith ar ein byd

Cefais fy ngeni gyda asthma, ar rwyf wedi byw, a dygymod ag e drwy fy mywyd, hyd yn oed wedi ymuno â'r Llu Awyr, ble, ymysg pethau a dyletswyddau eraill, bûm yn chwarae rygbi'n rheolaidd a gwneud popeth a ddisgwyliid gennyf, cymryd rhan yn mhopeth fel pawb arall. Nid adewais i'r asthma fy nal nôl rhag gwneud dim. Roeddwn yn benderfynol na fyddai'n fy maeddu, ac anaml iawn y gwnaeth.

Yna, daeth y coronavirus, a newidiodd pethau. Gan fy mod yn asmatig rhaid i mi aros mewn ac hunan-ynysu. Golygai hyn fy mod yn gallu mynd am dro fel ymarfer corff, sy'n rhywbeth a wnaif bron bob dydd o'r wythnos, yn rhannol er mwyn dianc rhag y ffôn a'r cyfrifiadur. Y mae cerdded yn yr awyr agored yn angenrheidiol i mi gan ei fod yn helpu fy iechyd a chyflwr meddyliol.

Roeddwn wedi meddwl y gallwn dal i ymweld â'm plwyfolion, ond na, roedd rhaid aros i ffwrdd oddi wrth bawb, ac fe wnaeth hynny i mi chwilio'n ddwfn i'm mewn. Fel gweinidog gwelais i fy hun erioed; y mae ymweliadau yn rhan bwysig o hynny, yn enwedig wrth ddelio gyda'r hen oed. Er y posibilrwydd o berygl personol iddynt hwy eu hunain gallai gweithwyr eraill ddal i fynd i'w gwaith a helpu eraill, ond nid y clerigwyr. Wrth gwrs gallwn eu ffonio neu ddefnyddio ffyrdd electronig eraill. Serch hynny, heblaw'r ffaith bod fy mhlwyfolion hebddynt, neu'n methu eu defnyddio, mae'r ffordd hon yn teimlo'n oeraidd a phell.

Yr wyf yn aml yn dweud wrth pobl mai rhan o waith offeiriad yw bod yn feddyg ysbrydol yn helpu eraill ble bynnag a phryd bynnag bo'r angen, beth bynnag bo'r gost. Wrth feddwl am y cenhadwyr ac efengylwyr a aeth dramor, weithiau i fannau peryglus iawn, mae'n fy atgoffa o'r hyn y dylai gweinidog i fod; nid oedd perygl wedi eu cadw draw na'u cadw rhag gwasanaethu ble bynnag y cawsant eu galw.

I fod yn onest, teimlwn fod hyn yn anodd iawn. Wrth fod yn offeiriad yr oeddwn wastad wedi cymryd fy nyletswyddau bugeiliol o ddifri. Nawr dywedwyd wrthym i weinyddu o bell- gwnaeth hyn i fi deimlo dipyn bach yn euog ac anaddas ond yr wyf wedi dod i sylweddoli fy mod dipyn bach yn hunanol, ac yn meddwl amdanaf fy hun yn unig.

Wedi tair wythnos o hynan-ynysu, cefais 'y llythyr' gan y bwrdd iechyd lleol yn fy hysbysu, gan fy mod yn dioddef o asthma, fy mod nawr yn y categori bregus. Nawr roedd yn fater personol a difrifol, a gwyddwn y byddai'n rhaid i mi aros gartref, wedi fy ynysu am o leiaf 12 wythnos. Gwyddwn bod Duw yn brysur ar yr adeg hon ond bod ganddo amser i roi i mi.

Yn ystod amser o weddi cofiais am yr adnod a roddodd Duw i mi flynyddoedd yn ôl, un a ddefnyddiais i annog eraill, Philipiadaid 4:13 (NRSV) 'Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.' Fe chwiliais am gysur yr adnod hon sawl gwaith dros y blynyddoedd, weithiau yr oedd arnaf angen cymorth i sefyll a phregethu, weithiau i helpu'r rhai oedd yn galaru, weithiau i helpu eraill mewn perthynas anodd.

Yn nawr, ar yr achlysur hwn, yr oedd yn wahanol; nawr rhoddodd yr adnod hon gysur i fi yn fy ynysu, mae'n golygu y gallaf ynysu, heb deimlo'n euog nag annigonol, gydag Ei help gallaf hefyd helpu eraill drwy aros ble yr ydwyf, yn eu cadw hwythau a minnau yn ddiogel.

Felly y mae'r ateb i'r cwestiwn cychwynnol yn ymddangos yn hawdd nawr; byddai Iesu yn gwneud yn gymwys yr hyn a wnaeth! Byddai'n rhoi o'i hunan, byddai'n derbyn poen a chamdriniaeth, hyd yn oed ynysu, a byddai'n sicr yn rhoi gofidiau a budd eraill o flaen ei ddiogelwch ei hun. Efallai na fyddai'n cymeryd fy ofnau, gofidiau, ynysu ac euogrwydd i ffwrdd, ond byddai gyda fi yn eu mysg, fe wŷr sut mae hynny'n teimlo, a gwn ei fod yn teimlo dros ofi.

Os hoffech chi wybod beth mae Iesu yn ei wneud heddiw edrychwch ar wynebau y meddygon, nyrsys, pawb yn y GIC, y sector gofal, edrychwch ar weithwyr y siopau bwyd a'r gyrrwyr sy'n cludo. Edrychwch ar y gwirfoddolwyr drwy'r wlad sy'n estyn cymorth, rhai yn dychwelyd at swyddi yr oeddent wedi ymddeol oddi wrthynt.

Nid wyf yn credu am un funud mai Duw achosodd Covid-19, ond y mae'n sicr yn gweithio'n ddiwyd yn y cefndir yn ei ddileu.

Moliant a fo i'r Arglwydd!